Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynhadledd OPCC** |
| **Dyddiad:** | **21 Tachwedd 2017** |
| **Amser:** | **13:30 – 15:30** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, OPCC (CM)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Cyllid, OPCC (JW)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (CC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Emma Northcote, Cyfathrebu Corfforaethol (EN)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Cydymffurfio (CB)<br>Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 23/10/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam** | **Crynodeb Gweithredol** | **Cynnydd** |
| **PB 3009** | **Dylai Siwrnai'r Dioddefwyr gael ei chynnwys o fewn Cylch Gorchwyl y Bwrdd Agored i Niwed Strategol.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3010** | **Datblygu cynllun gweithredu i ddatblygu'r gwaith yn ymwneud â Siwrnai'r Dioddefwyr.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3011** | **Datblygu dogfen grynhoi a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3012** | **Cydweithrediad CCTV/ANPR i fod yn destun ar gyfer y Bwrdd Plismona.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3013** | **PCC i dderbyn briffiad ar Adroddiad Diogelu Powys.** | **Wedi'i gwblhau** |

| PENDERFYNIADAU YN CODI O GYFARFOD 21/11/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o Benderfyniad** | **I'w ddatblygu gan** |
| **PB T2 48** | **Ehangu ar y Panel Sicrwydd Ansawdd a chwrdd yn amlach gyda'r bwriad o ddatblygu ymarferion ad hoc yn y dyfodol.** | **CB** |
| **PB T2 49** | **PCC a CC yn penderfynu na ddylid cael cap ar gyflog staff yr Heddlu.** | **PCC/CC** |

## 2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 23 Hydref a materion yn codi

Penderfynwyd yn dilyn adolygiad o gamau o gofnodion cyfarfod blaenorol y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 23 Hydref eu bod yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â darpariaethau Iechyd Meddwl o fewn ardal yr Heddlu. Gwahoddwyd y PCC i fynychu cyfarfod rhwng y CC a Phennaeth Hywel Dda ym mis Rhagfyr.

Cafwyd trafodaeth gryno yn ymwneud â datblygiad PB 3012 a phenderfynwyd y byddai ANPR/CCTV ar agenda PB yn ail gyfarfod mis Ionawr.

**Cam Gweithredu: Cais am ddiweddariad gan swyddog ANPR cyn cyfarfod rhwng y swyddog ANPR a'r PCC ym mis Rhagfyr.**

## 3. Y Diweddaraf gan y Prif Gwnstabl

<u>Diweddariad gweithredol</u>

Rhoddodd y Prif Gwnstabl y diweddaraf i'r Bwrdd ar faterion gweithredol gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu, i'r tân yn Llangamarch, Powys, mynediad anghyfreithlon yn Aberdaugleddau ac ymosodiad cyllell ar swyddog heddlu. Nododd y CC bod 13 ymosodiad ar heddlu wedi'u cofnodi ers y Bwrdd Plismona diwethaf. Holodd y PCC a oedd patrwm yn ymddangos o ddigwyddiadau diweddar yn siopau'r Co-Op yn Ardal yr Heddlu.

**Cam Gweithredu: GB i roi pecyn Toriadau Co-op i'r OPCC.**

<u>Diweddariad sefydliadol</u>

Rhoddodd y CC y diweddaraf i'r Bwrdd ar faterion sefydliadol gan gynnwys y ddau swyddog sydd wedi'u gwahardd ar hyn o bryd. Trafododd y CC a'r PCC eu trafodaeth gyhoeddus ar ddod yn Abergwaun ar 21 Tachwedd.

## 4. Y Diweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

<u>Lleol</u>

Rhoddodd y PCC y diweddaraf i'r Bwrdd ar ei ymweliadau â'r TARIAN ac WECTU a'i ymweliadau ymgysylltu drwy'r dydd yn y Drenewydd, Llanandras a'r Drenewydd ar 15 Tachwedd.

<u>Cenedlaethol</u>

Cafwyd trafodaeth gryno yn ymwneud â materion ariannol a chyhoeddiadau a ddisgwylir.

**Cam Gweithredu: CoS i geisio adborth gan y CC a PCC yn dilyn trafodaeth Abergwaun.**

## 5. Testun Misol i'w Drafod: Iechyd Meddwl

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â chynlluniau ar gyfer gwasanaeth brysbennu Iechyd Meddwl yn y flwyddyn newydd. Rhoddwyd y Model Gweithredu i'r PCC ar gyfer y gwasanaeth brysbennu a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Nododd y CC y byddai'n cwrdd â phennaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda ym mis Rhagfyr, a hysbysodd y Bwrdd ar 04/01/2018 y byddai brysbennu yn cael ei drefnu am 12 mis arall ond yn cael ei ymestyn i 7 diwrnod yr wythnos o benwythnosau yn unig.

## 6. Materion i'w trafod

### a. Cyflwyniad ar Wefan yr Heddlu

Rhoddodd EN y diweddaraf i'r PB ar newidiadau i ddod i'r wefan ar ei ffurf bresennol gan bwysleisio datblygiadau i'r nodwedd 'Rwy'n pryderu am' a chysylltiadau at rifau ffôn a gwasanaethau i ddioddefwyr. Bwriedir i'r gwefannau newydd – Yr Heddlu ac OPCC – lansio ar 01/01/2018 serch hynny mae peth gwaith angen ei wneud o hyd. Cytunwyd bod angen trafodaeth bellach y tu hwn i'r Bwrdd Plismona i sicrhau bod graddfeydd amser yn cael eu bodloni a bod y cynnyrch terfynol yn addas i'r diben.

**Cam Gweithredu: y CC i ystyried rhyddhau datblygwr gwe IS&T i weithio ar y wefan gyda'r pennaeth cyfathrebu corfforaethol.**

### b. Materion Adnoddau Dynol

Cododd y CoS fater a oedd wedi'i dynnu i'w sylw mewn perthynas â phenderfyniad a wnaed gan y cyn PCC mewn perthynas â chapio cyflog staff yr heddlu. Nid oes unrhyw gofnodion, ac eithrio e-bost gan y cyn Brif Gwnstabl at uwch swyddog Adnoddau Dynol, wedi'u canfod mewn perthynas â phenderfyniad o'r fath. Cafwyd trafodaeth a chytunodd y PCC a'r CC na ddylid cael cap ar gyflog uchaf staff yr heddlu, y credir ei fod ar raddfa gyflog M ar hyn o bryd.

**Penderfyniad: PCC a CC yn penderfynu na ddylid cael cap ar gyflog uchaf staff yr Heddlu, y credir ei fod ar raddfa gyflog M ar hyn o bryd.**

**Cam Gweithredu: Dogfen grynhoi ar gyfer y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol i'w chyflwyno yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio Rhagfyr.**

**Cam Gweithredu: Y PCC a CC i drafod gydag Adnoddau Dynol oblygiadau cam gweithredu blaenorol.**

### c. Datblygu Gwers Blwyddyn 6 CSE

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud ag ymdriniaeth Cymru Gyfan i'r Rhaglen Gyswllt Ysgolion gyda Llywodraeth Cymru. Datganodd CC a PCC eu bod yn cefnogi'r rhaglen serch hynny roedd cwestiynau i'w cael yn ymwneud ag ariannu Llywodraeth Cymru o'r Rhaglen Gyswllt Ysgolion.

**Cam Gweithredu: Y CC a PCC i godi materion Datblygu Gwers Blwyddyn 6 CSE yn AWPB.**

Cafwyd trafodaeth gryno yn ymwneud â chyswllt DPP â'r ymgyrch Rhuban Wen i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a merched.

**d. Drafft Terfynol Model Gweithredu DPP**

Trafododd y Bwrdd gyfarfod gyda Price Waterhouse Cooper mewn perthynas â Model Gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd ariannol o fewn DPP. Datganodd y Bwrdd y byddai'r gost a'r gwasanaeth a ddarperir yn dylanwadu ar eu penderfyniad.

**Cam Gweithredu: Trefnu cyfarfod gyda Price Waterhouse Cooper.**

**7. Unrhyw Fater Arall**

a. Panel Sicrwydd Ansawdd

Cyflwynodd y Swyddog Cydymffurfio nifer o opsiynau i'r Bwrdd ar gyfer datblygu'r Panel Sicrwydd Ansawdd yn y dyfodol. Pwysleisiodd y swyddog Cydymffurfio fuddion y trydydd opsiwn a oedd yn cynnwys cadw'r Panel fel grŵp strategol sy'n ystyried y cwynion mwyaf difrifol o ran cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, wrth sefydlu grwpiau craffu llai yn ôl yr angen.

**Penderfyniad: Ehangu ar Banel Sicrwydd Ansawdd, a fydd yn cwrdd yn amlach gyda'r bwriad o ddatblygu ymarferion ad hoc yn y dyfodol.**

**Cam Gweithredu: Grwpiau cymunedol megis Clybiau Ffermwyr Ifanc a grwpiau myfyrwyr i'w defnyddio ar y cyd â QAP gyda chyfleoedd profiad gwaith.**

**Cam Gweithredu: Cynllun gweithredu ar gyfer y 12 mis nesaf o QAP i'w gyflwyno i PC ar 19 Rhagfyr.**

| CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 21/11/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam** | **Crynodeb Gweithredol** | **I'w ddatblygu gan** |
| **PB 3014** | **Gofyn am y diweddaraf gan swyddog ANPR cyn cyfarfod rhwng y swyddog ANPR a'r PCC ym mis Rhagfyr.** | **MH** |
| **PB 3015** | **GB i roi pecyn Toriadau Co-op i'r OPCC.** | **GB** |
| **PB 3016** | **CoS i geisio adborth gan y CC a'r PCC yn dilyn trafodaeth Abergwaun.** | **CoS** |
| **PB 3017** | **Y CC i ystyried rhyddhau datblygwr gwe IS&T i weithio ar y wefan gyda'r pennaeth cyfathrebu corfforaethol.** | **CC** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 3018** | **Dogfen grynhoi ar gyfer y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol i'w chyflwyno yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio Rhagfyr.** | **CoS** |
| **PB 3019** | **Y PCC a'r CC i drafod gydag Adnoddau Dynol oblygiadau'r cam gweithredu blaenorol.** | **PCC/CC** |
| **PB 3020** | **Y CC a'r PCC i godi mater Datblygu Gwers Blwyddyn 6 CSE yn AWPB.** | **PCC/CC** |
| **PB 3021** | **Trefnu cyfarfod gyda Price Waterhouse Cooper.** | **GB** |
| **PB 3022** | **Defnyddio grwpiau cymunedol megis Clybiau Ffermwyr Ifanc a grwpiau myfyrwyr ar y cyd â QAP gyda chyfleoedd profiad gwaith.** | **CB** |
| **PB 3023** | **Cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer y 12 mis nesaf o QAP i PB ar 19 Rhagfyr.** | **CB** |